**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder, a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@Senedd.Cymru

12 Mai 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 23 Mawrth yn gofyn am safbwynt Llywodraeth Cymru ar rai materion mewn perthynas â Fframwaith Windsor.

Mae Llywodraeth y DU wedi arwain trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â materion sy'n codi o Brotocol Gogledd Iwerddon, gan fod ganddi gyfrifoldeb dros gysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cysylltiadau â'r UE a'i sefydliadau. Arweiniodd hyn at gyhoeddi trefniadau newydd a elwir yn Fframwaith Windsor ar 27 Chwefror 2023. Cafodd Llywodraeth Cymru wybod am y cytundeb gan Lywodraeth y DU yn union cyn y cyhoeddiad cyhoeddus hwnnw.

Ni wahoddwyd Llywodraeth Cymru, na Llywodraeth yr Alban i gyfarfod Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael ar 24 Mawrth 2023, yn unol â threfniadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU ers sefydlu'r Pwyllgor hwnnw yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ofyn am gael bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn os disgwylir y bydd materion sy'n berthnasol iddi yn cael eu trafod. Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol fel sylwedyddion yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth a gynhaliwyd ar yr un dyddiad.

Bellach mae'r trefniadau ar gyfer rhag-gyfarfodydd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig yn cael eu llywodraethu gan y cytundeb yn dilyn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (www.gov.uk) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol sydd bellach wedi ei sefydlu ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cyfarfod cyn cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cyd-bwyllgor Cytundeb Ymadael. Cyfarfu yn brydlon ar 20 Mawrth 2023, cyn cynnal y cyfarfodydd uchod ar 24 Mawrth 2023.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.